Cofnodion y cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 17 Gorffennaf 2020** am 9.00am trwy fideo gynadledda.

**Presennol**
Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Ms Ebony Banks
Mrs Laura Gough
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mrs Claire Homard
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Mr David Subacchi
Ms Chloe Williams

**Swyddogion:**
Mr David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Mrs Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)*
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-ganghellor)*

**Hefyd yn bresnnol:**
Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd)*
Mr Kieran Irwin (*Arsylwr) Eitemau 19.89 i 19.97 yn gynhwysol yn unig*

**Ymddiheuriadau:**
Mr Jason Davies
Mr Paul McGrady
Mr David Sprake

| | | |
|---|---|---|
| **19.89** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Croesawyd Ms Ebony Banks a Ms Chloe Williams i'w cyfarfod cyntaf fel Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr. Diolchwyd i Mr Kieran Irwin am ei gyfraniad i'r Bwrdd yn ystod ei gyfnod yn y swydd a dymunwyd y gorau iddo yn y dyfodol. | |
| **19.90** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni ddatganwyd unrhyw wrthdrawiad buddiannau o ran unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **19.91** | **Aelodaeth** | |
| | *Gadawodd Mr Subacchi y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.*<br><br>**Derbyniwyd:**<br>Argymhelliad gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Cymeradwyodd y Bwrdd ailbenodi Mr David Subacchi fel llywodraethwr annibynnol am ail gyfnod yn y swydd tan 31/8/24. | |

| | | |
|---|---|---|
| **19.92** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mai 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mai 2020 yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod hwnnw. | |
| **19.93** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.94** | **Adroddiad yr Is-ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad yr Is-ganghellor.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddodd yr Is-ganghellor am nifer o faterion, yn cynnwys: cyhoeddiad diweddar y Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar gyfer ymgynghoriad; cynnydd y cais Siambr Seren; symud cais y Brifysgol am bwerau dyfarnu graddau ymchwil ymlaen ac aelodaeth yr Is-ganghellor yn y Grŵp Ymateb Cyflogwyr Rhanbarthol.<br><br>Yng nghyswllt y cais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil, atgoffwyd yr aelodau mai'r amcan oedd cyflawni hyn erbyn diwedd cyfnod y Weledigaeth a Strategaeth 2025. Fodd bynnag, roedd y Brifysgol wedi asesu ei bod yn bodloni'r meini prawf ac wedi cysylltu gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) am gyngor, a bwriedir symud cyflawni'r amcan hwn ymlaen. Byddai cais y Brifysgol angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru cyn ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor. Byddai'r Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil yn cael gwahoddiad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref i drafod y broses a'r ddogfen hunan werthuso ddrafft.<br><br>Sefydlwyd y Grŵp Ymateb Cyflogwyr Rhanbarthol i gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli colli swyddi yn y rhanbarth a datblygu set gydlynus o raglenni hyblyg i uwchsgilio ac ailhyfforddi pobl yn dilyn dileu eu swyddi. Byddai'n canolbwyntio'n ddechreuol ar y dileu swyddi arwyddocaol yn Airbus.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.95** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | Adroddodd Gadeirydd y Bwrdd ei bod wedi bod mewn dau gyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru ym mis Mehefin a'i bod ar fin mynd i gyfarfod arall ar 22 Gorffennaf.<br><br>Roedd y Cadeirydd yn parhau i gynrychioli Cadeiryddion Prifysgolion Cymru ar weithgor Addysg Uwch Llywodraeth Cymru a oedd wedi datblygu canllawiau ar gyfer prifysgolion ynghylch gweithredu yn ystod y sefyllfa coronafeirws. Cyflwynwyd canllawiau dechreuol ddiwedd fis Mehefin. Roedd canllawiau mwy penodol ynghylch llety myfyrwyr; myfyrwyr rhyngwladol; labordai addysgu a threfniadau profi ac olrhain i'w cyhoeddi yn ystod yr wythnos yn diweddu 24 Gorffennaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd unigol gyda llywodraethwyr yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn cynnwys y myfyriwr lywodraethwyr yn gadael, cyfredol a newydd. Bydd y Cadeirydd yn cynnal rhagor o gyfarfodydd gyda llywodraethwyr unigol dros y misoedd nesaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.96** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br>(ii) Adroddiad Effaith 2019/20 drafft.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad a thynnu sylw at eu maniffesto a oedd yn cynnwys grymuso myfyrwyr i gynorthwyo i wneud newidiadau cadarnhaol yn y Brifysgol. Roedd wyth ymgeisydd yn yr etholiadau a nifer dda wedi pleidleisio ar gyfer y swyddi swyddogion sabothol amser llawn. Gwelwyd gwella'r ymgysylltu o ran yr hyfforddiant cynrychiolwyr cyrsiau, enwebiadau gwobrau'r Undeb Myfyrwyr a chwaraeon a chymdeithasau.<br><br>Roedd y Grŵp Cynghori Myfyrwyr yn cyfarfod bob pythefnos dros yr haf ac yn parhau i fwydo i mewn i benderfyniadau'r Brifysgol yn gysylltiedig â Covid-19. Roedd gan y Grŵp 24 o aelodau o ystod eang o bynciau a lefelau ac roedd yn gorff ar wahân i'r Cyngor Myfyrwyr. Roedd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr mewn trafodaethau gyda'r Dirprwy Is-ganghellor ynghylch statws a pharhad y Grŵp Cynghori Myfyrwyr yng nghyswllt grwpiau adborth myfyrwyr eraill a mecanweithiau adborth, gan gyfeirio at y Polisi Ymgysylltu â Myfyrwyr.<br><br>Byddai Adroddiad Effaith 2019/20 yr Undeb Myfyrwyr yn cael ei lunio'n derfynol unwaith y bo'r arolwg myfyrwyr wedi cau, a byddai'r canlyniadau'n hysbysu Cynllun Strategol newydd yr Undeb Myfyrwyr. Diolchwyd i'r llywodraethwyr am eu hadborth yn y diwrnod strategaeth ym mis Hydref 2019, a gofynnwyd iddynt ateb dau gwestiwn arall: 'beth sy'n gwneud yr Undeb Myfyrwyr yn unigryw?' a 'Pa un peth fedr yr Undeb Myfyrwyr ei wneud i wella gwaith y Brifysgol?' Gofynnwyd i'r aelodau ddarparu ymatebion y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>Y canolbwynt ar hyn o bryd oedd datblygu wythnos groeso ar gyfer y myfyrwyr newydd a'r rhai'n dychwelyd, a fyddai'n canolbwyntio ar y lleoliad, gyda thema 'Croeso i Wrecsam'. Roedd yr Is-ganghellor yn aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Ddinesig a gadeirir gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gofynnodd i'r Undeb Myfyrwyr wneud cysylltiad gyda'r grŵp hwnnw er budd pawb.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **VB** |
| **19.97** | **Adroddiad rheolaeth ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Yr adroddiad rheolaeth ariannol hyd at 31 Mai 2020.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at wahaniaethau allweddol i'r sefyllfa alldro a ragfynegwyd fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad rheolaeth ariannol ym mis Ebrill. Y prif reswm am y sefyllfa alldro cadarnhaol a ragfynegwyd oedd penderfyniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i beidio ag adfachu cyllid 2018/19 a 2019/20 am ddiffyg cyflawni credydau | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhan amser. Cynorthwywyd y sefyllfa hefyd gan yr elw enwol o werthu'r tir dros ben yn Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin, blaendaliadau gan fyfyrwyr rhyngwladol a Chyllid Arloesi a Chapasiti gan CCAUC. Roedd sefyllfa arian parod y Brifysgol yn parhau'n gryf ac roedd y Brifysgol yn parhau i gydymffurfio gyda holl gyfamodau banc AIB.<br><br>Eglurwyd fod taliad 50% terfynol yr arian gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a dderbyniwyd ym mis Mai 2020 wedi'i seilio ar nifer y myfyrwyr ar ddiwedd Chwefror. Tra byddai addasiadau'n cael eu gwneud oherwydd newidiadau i statws rhai myfyrwyr, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ar ôl y dyddiad terfyn ym mis Chwefror, ni ragwelwyd adfachu symiau mawr yn deillio o newidiadau o'r fath.<br><br>Adroddwyd fod yr holl gynlluniau cyfalaf ar y trywydd cywir yn bennaf. Byddai grant cyfalaf CCAUC 2019/20 wedi'i danwario yn ystod y flwyddyn a byddai'r balans yn cael ei gario trosodd i 2020/21 fel y caniatawyd.<br><br>Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a Glyndwr Innovations wedi'u heffeithio'n andwyol gan y sefyllfa Coronafeirws. Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru wedi gorwario ar y Cynllun Cyfalaf yn ystod y cyfnod, yn rhannol oherwydd yr angen i ymdrin â newidiadau dylunio yn Nhŷ Henblas ac adfer difrod a achoswyd gan fandaliaeth. Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi gofyn am dderbyn cyfrifon rheoli yr is-gwmnïau mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>Tra bo'r rhagfynegiad yn parhau y byddai credydau rhan amser wedi'u tangyflawni yn ystod y flwyddyn, mae'r Brifysgol yn gweithio ar sicrhau fod y dyraniad credydau rhan amser llawn yn cael ei gyflawni yn ystod 2020/21. Nodwyd fod 16 o gyrsiau byr ar-lein wedi'u datblygu yn ystod y misoedd diweddar, gydag oddeutu 700 wedi dilyn y cyrsiau. Roedd 12 o raglenni hyblyg ac ar-lein eraill yn cael eu datblygu ar gyfer 2020/21. Roedd strategaeth rhan amser newydd wrthi'n cael ei datblygu hefyd.<br><br>Llongyfarchwyd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'i dîm am yr adroddiad clir.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.98** | **Y Gyllideb Ddrafft** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y gyllideb ddrafft ar gyfer Grŵp y Brifysgol yn 2020/21.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y gyllideb ddrafft y bu'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn craffu arni ar 26 Mehefin ac eto ar 6 Gorffennaf. Y sefyllfa ddarpariaethol cyn effaith y sefyllfa coronafeirws fyddai gwarged net £0.8m. Nid oedd cyllido rheolaidd CCAUC wedi'i gadarnhau'n ffurfiol eto, nid oedd unrhyw gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft, na'r derbynebion cyfalaf potensial o werthu'r tir yn Ffordd y Deon/Holt, Gatewen, na'r Chwarter Gogleddol, gan nad oedd amseru gwaredu'r eiddo yma'n hysbys.<br><br>Tynnwyd sylw at y rhagdybiaethau cadarnhaol a negyddol a oedd yn sylfaen i'r gyllideb ddiwygiedig a oedd yn cynnig sefyllfa gwarged net £573k. Roedd y rhain yn cynnwys: lleihad yn atebolrwydd cynllun pensiwn y Brifysgol; lleihad yn yr incwm ffioedd dysgu yn cyfateb i oddeutu 70 myfyriwr; tynnu'n ôl o ran y dyfarniad cyflog cenedlaethol tybiedig gyda'r posibilrwydd o rewi cyflogau yn y sector; parhau i reoli swyddi gwag yn ofalus; cadw cyllidebau ac eithrio tâl ar lefelau 2019/20; cadw'r rhaglen mân wariant cyfalaf a chynnwys y £750k o gyfalaf gan CCAUC yn unol â | |

| | | |
|---|---|---|
| | dyraniadau 2018/19 a 2019/20; a chynnydd darbodus yn niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol. Yn ychwanegol, roedd incwm credydau rhan amser wedi'i leihau i sicrhau na fyddai tangyflawni yn cael effaith niweidiol ar y gyllideb, er bod cynlluniau i ddarparu'r rhaglen gredydau rhan amser yn llawn.<br><br>Roedd y tîm cyllid wedi trafod tybiaethau nifer y myfyrwyr gyda'r Cyfadrannau, timau rhaglenni a chynllunio strategol.<br><br>Roedd cyllideb Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn dangos sefyllfa adennill costau ac roedd cyllideb Glyndwr Innovations yn nodi gwarged £250k. Y grant bloc ar gyfer yr Undeb Myfyrwyr oedd £371k yn 2020/21.<br><br>Tynnwyd sylw at y prif ddibyniaethau, risgiau a mesurau lliniaru hefyd.<br><br>Byddai elfennau'r gyllideb wedi'u nodi fel gwariant disgresiynol yn cael eu dal nes bo nifer y myfyrwyr yn cael ei gadarnhau ym mis Hydref. Bryd hynny gellid cyflwyno cynigion i'r Bwrdd ynghylch rhyddhau peth o'r cyllid gwariant disgresiynol os oedd nifer y myfyrwyr yn mynd i gyfeiriad cadarnhaol, ym marn y Tîm Gweithredol.<br><br>Cydnabuwyd anhawster llunio cyllideb gyda chymaint o elfennau'n ansicr, ac roedd yn amhosibl cyfrifo ar gyfer y posibilrwydd o ail dôn o achosion Covid-19 yn arwain at gyfnod clo arall yn yr hydref. Serch hynny, byddai'r Brifysgol yn sicrhau ei bod yn medru symud yn ôl at ddarpariaeth yn gyfangwbl ar-lein yn ystod unrhyw gyfnod lle bo sefyllfa o'r fath. Nodwyd y gellid cael ffactorau anhysbys cadarnhaol yn ogystal â negyddol a allai effeithio ar y gyllideb, ac felly'r penderfyniad i adolygu'r sefyllfa'n ffurfiol eto yn yr hydref.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R gyllideb ddrafft i'w chyflwyno i CCAUC, yn cynnwys y gwario disgresiynol i'w ddal yn ôl nes bo nifer y myfyrwyr yn hysbys ym mis Hydref 2020.<br><br>CYTUNO i dderbyn cynigion gan y Tîm Gweithredol ynghylch rhyddhau cyllid gwariant disgresiynol ym mis Hydref, pe bai'n briodol.<br><br>CYTUNO i adolygu Cyllideb 2020/21 yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. | |
| **19.99** | **Cais Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am ragfynegiadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Rhagfynegiadau ariannol 2021/22<br>(ii) Modelu sefyllfaoedd gan CCAUC<br>(iii) Llif arian y Grŵp yng nghyllideb 2020/21 a rhagfynegiadau 2021/22<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ragfynegiad 2021/22, modelu sefyllfaoedd CCAUC ac ymateb y Brifysgol, ac esboniodd y cefndir a'r tybiaethau a oedd wedi hysbysu'r dogfennau. Roedd y rhagfynegiad ar gyfer 2021/22 wedi'i seilio ar, ac yn dibynnu ar, gyflawni cyllideb 2020/21.<br><br>Nodwyd, gyda'r modelu sefyllfaoedd, disgwyliad CCAUC oedd y byddai prifysgolion yn tynnu sylw at y mesurau lliniaru y byddai angen sicrhau eu bod yn eu lle i gael sefyllfa adennill costau neu warged. Byddai canlyniadau'r modelu yn cael eu cyfuno gyda'r data o holl Brifysgolion Cymru i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch sefylfa sector Addysg Uwch Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd rhagfynegiad y llif arian misol ar gyfer cyllideb 2020/21 a rhagfynegiad ariannol 2021/22 yn ogystal â rhagfynegiadau ariannol y ddwy sefyllfa CCAUC. Roedd yr holl ragfynegiadau a sefyllfaoedd yn gweld y Brifysgol yn parhau mewn sefyllfa arian parod cadarnhaol oherwydd mesurau lliniaru i sicrhau sefyllfa adennill costau neu well. Nodwyd y byddai proffil taliad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn dychwelyd i 25%, 25% a 50% yn 2021/22.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADDWYO'R rhagfynegiad ariannol 2021/22 a llif arian cysylltiedig Grŵp y Brifysgol i'w cyflwyno i CCAUC.<br><br>CYMERADWYO'R ymateb i'r modelu sefyllfaoedd a llif arian cysylltiedig Grŵp y Brifysgol i'w cyflwyno i CCAUC. | |
| **19.100** | **Arolwg Canlyniadau Graddedigion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad B yn deillio o ganlyniadau'r Arolwg Canlyniadau Graddedigion 2017/18**.**<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-ganghellor yr adroddiad a'r cefndir i'r adroddiad cyntaf hwn o'r Arolwg newydd a oedd wedi disodli'r Arolwg Cyrchfan Gadawyr Addysg Uwch blynyddol. Roedd y Brifysgol ar y brig yng Nghymru o ran grwpio'r holl raddedigion a aeth ymlaen i gyflogaeth. Fodd bynnag, roedd lefel graddedigion Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn mynd i waith sgiliau uchel (Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 1-3) yn y Deyrnas Unedig yn is na'r holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Derbyniwyd rhagor o ddata ynghylch perfformiad mewn pynciau a byddai hyn yn cael ei ddarparu yn adroddiad C a fyddai'n cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod. Byddai'r data'n hysbysu'r Strategaeth Cyflogadwyedd a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.<br><br>Cydnabuwyd fod 15 mis i dderbyn canlyniadau'r arolwg yn amser hir, ac er nad oedd unrhyw fwriad ailgynnal yr arolwg i geisio arwyddion cynnar canlyniadau myfyrwyr, byddai'r Brifysgol yn parhau i roi cymorth a chefnogaeth i'w graddedigion ac yn tracio'r ymgysylltu gyda gweithgarwch gyrfaoedd WGUConnect. Byddai'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n ystyried gyda PVC Partnerships a oedd unrhyw fecanweithiau lle gallai fod yn bosibl penderfynu ar lwyddiant gweithgareddau i gynorthwyo graddedigion i sicrhau cyflogaeth sgiliau uchel cyn cynnal arolwg cenedlaethol.<br><br>Nodwyd fod y gyfradd ymateb gan raddedigion Glyndŵr yn 53% o'i gymharu gyda 47% o'r boblogaeth darged yn ei chyfanrwydd ac roedd cyfraddau ymateb rhai sefydliadau oddeutu 20%. Roedd yr ymateb gwael yma'n codi cwestiwn ynghylch dilysrwydd yr arolwg. Bydd yr arolwg yn nodwedd yn fersiwn nesaf y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.<br><br>Ystyriwyd fod y canlyniadau'n sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **VB** |
| **19.101** | **Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Penawdau canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (dosbarthwyd).<br><br>**Adroddwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd y Dirprwy Is-ganghellor yr adroddiad ac atgoffodd yr aelodau am gefndir yr arolwg, fformat y cwestiynau a sut y cawsant eu cyhoeddi.<br><br>Roedd y sgôr boddhad cyffredinol wedi cynyddu 4% o'i gymharu gyda'r llynedd i 81%. Gwnaeth y Brifysgol berfformio'n dda hefyd yn: 'Addysgu yn fy ngwrs' (87%); 'Asesu ac Adborth' (80%)' a 'Chymorth Academaidd' (82*). Gwnaed gwaith arwyddocaol i roi cymorth a chefnogaeth i fyfyrwyr, yn cynnwys diwygio'r dulliau Ymgysylltu â Myfyrwyr a datblygu Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr. Bu gwelliannau yn y pwyntiau canran o'i gymharu gydag arolwg 2019 o rhwng 3 a 7% ym mhob maes. Roedd y sgôr 'Adnoddau Dysgu' wedi gwella 6% ond mae angen gwella rhagor.<br><br>Roedd yr aelodau'n hynod o falch gweld y gwelliannau gan gydnabod y gwaith caled a oedd yn ofynnol i gynyddu'r sgorau a'u cynnal yn uchel. Roedd y Bwrdd hefyd yn falch o weld gwell sgôr ar gyfer yr Undeb Myfyrwyr. Diolchwyd i'r Undeb Myfyrwyr am ei chyfraniad i'r Brifysgol yn cael y set canlyniadau da yma gyda'u pwysau ar sicrhau adborth asesu amserol yn gyson.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'r data lefel uchel o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a CHYTUNO i dderbyn rhagor o ddadansoddiadau trwy gyfrwng eu dosbarthu. | **VB** |
| **19.102** | **Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin.<br>(ii) Adroddiad ynghylch adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd a'r cynllun gweithredu'n deillio o hynny.<br>(iii) Diweddariad cynnydd blynyddol y cynllun gweithredu Adolygiad Gwella Ansawdd Mehefin 2020.<br>(iv) Adroddiad Canlyniadau Gradd 2020.<br><br>**Adroddwyd:**<br>**19.102.01 Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd**<br>Esboniodd yr Is-ganghellor y cefndir a'r canlyniadau'n deillio o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd, y bu'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n craffu arno. Casgliad yr adroddiad effeithiolrwydd oedd fod strwythur llywodraethu academaidd Prifysgol Glyndŵr yn addas i'w bwrpas a bod y gweithredoedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiffinio rolau aelodau, cefnogi, datblygiad a chyfathrebu gyda'r gymuned academaidd ehangach.<br><br>**19.102.02 Datganiad Canlyniadau Gradd**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-ganghellor y Datganiad Canlyniadau Gradd a oedd yn ofyniad newydd yn deillio o ymateb i bryderon y cyhoedd am ddirnadaeth chwyddiant graddau. Roedd canlyniadau gradd eisoes yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd Academaidd, ond byddai'r Datganiad Canlyniadau Gradd yn ddogfen gyhoeddus.<br><br>Tadogwyd naid yn nifer y graddau anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddobsarth rhwng 2014/15 a 2015/16 i gau campws Llundain lle'r oedd yn nodweddiadol i fyfyrwyr gyflawni graddau is na champysau eraill y Brifysgol a sefydliadau partner, ond roedd yn cynrycholi bron i chwarter y boblogaeth myfyrwyr bryd hynny. Roedd eithrio Campws Llundain yn gwastatau'r gromlin ac yn dangos fod y Brifysgol yn unol â Chymru a'r Deyrnas Unedig yn fras. Roedd yn bwysig nodi fod y ddogfen yn disgrifio gweithredoedd a gyflwynwyd i wella safonau myfyrwyr y Brifysgol a oedd yn gadarnhaol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gwaith yn cael ei wneud trwy gyfrwng Prifysgolion y Deyrnas Unedig i sefydlu algorithmau gradd cyson ar draws y sector.<br><br>Nodwyd fod yr adroddiad yn ymateb da a llawn a fyddai'n darparu haen ychwanegol i'r panel Craffu ar Safonau ac Ansawdd adlewyrchu arno yn yr hydref. Ystyriwyd ei bod yn ddogfen ddefnyddiol i lywodraethwyr a rhanddeiliaid hefyd wrth ddeall y cymhlethdod y tu ôl i raddio. Roedd yn debygol y byddai'r adroddiad yn esblygu dros amser.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2020, yn cynnwys diweddariad cynnydd blynyddol ynghylch y cynllun gweithredu Adolgyiad Gwella Ansawdd.<br><br>CYMERADWYO'R cynllun gweithredu'n deillio o adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd.<br><br>CYMERADWYO'R adroddiad Canlyniadau Gradd i'w gyhoeddi. | |
| **19.103** | **Risg Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y gofrestr risgiau strategol corfforaethol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd yr Is-ganghellor sylw at y risgiau a ddiwygiwyd mewn ymateb i'r sefyllfa coronafeirws. Byddai'r gofrestr risgiau'n cael sylw eto yn yr hydref gan fod yr amgylchedd, ac felly'r risigau, yn newid yn gyson.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.104** | **Cylchlythyrau, ymgynghoriadau ac ymatebion CCAUC ac eraill** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ynghylch cylchlythyrau CCAUC a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf: yn cyfeirio at Gyfeiriad y Cyfrifon yn 2019/20 a Chanllawiau effaith Covid-19 ar ddarparwyr addysg uwch yng nghyswllt diogelu defnyddwyr, disgwyliadau myfyrwyr ac ansawdd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.105** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **19.105.01 Y Pwyllgor Archwilio ac Adnoddau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2020<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 12 Mehefin wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| | **19.105.02 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin | |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) Adroddiad crynodeb arolwg ‘Pulse’<br>(iii) Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru diwygiedig<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>CYMERADWYO’R Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru.<br><br>NODI adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2019/20 a chynllun gwaith 2020/21.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 18 Mehefin wedi’u dosbarthu cyn papurau’r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys canlyniadau’r arolwg ‘Pulse’. | |
| | **19.105.03 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2020.<br>(ii) Cynnig i ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor.<br>(iii) Cynnig ynghylch y penderfyniad am faint uchafswm y Bwrdd.<br>(iv) Fframwaith Cynllunio Olyniaeth y Bwrdd Llywodraethwyr newydd.<br>(v) Proses Ddethol Llywodraethwyr Annibynnol newydd wedi’i diweddaru.<br>(vi) Disgrifiad rôl newydd Cadeiryddion Pwyllgor.<br>(vii) Datganiad newydd ynghylch rôl aelodau’r Tîm Gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau.<br>(viii) Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a’r Undeb Myfyrwyr.<br>(ix) Diwygiad arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog (4.2).<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Gadeirydd y Bwrdd a’r Clerc sylw at y dogfennau newydd a diwygiedig a oedd wedi’u hadolygu a’u datblygu o ganlyniad i’r cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan y Bwrdd i fynd i’r afael â’r Ymrwymiadau Gweithredu yn deillio o Adolygiad Llywodraethu Cymru (Camm)<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2020.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 26 Mehefin wedi’u dosbarthu cyn papurau’r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad cloi Effeithiolrwydd y Bwrdd 2017/18.<br><br>NODI y gwnaed mân ddiweddariadau i ddisgrifiadau rôl y Cadeirydd, Is-gadeirydd a Llywodraethwr, yn cynnwys terminoleg niwtral o ran rhyw a chynnwys cyfeiriad at y Cadeirydd yn cymryd rhan mewn proses adolygiad 360 gradd fel sy’n ofynnol gan ymrwymiadau gweithredu Adolygiad Llywodraethu Cymru.<br><br>CYMERADWYO:<br><br>• Diwygio cylch gwaith y Pwyllgor o ran y cworwm.<br><br>• Maint uchfaswm y Bwrdd o 20 aelod a’r categorïau aelodaeth.<br><br>• Fframwaith Cynllunio Olyniaeth y Bwrdd Llywodraethwyr. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Y diwygiadau i'r Broses Ddethol Llywodraethwyr Annibynnol newydd.<br><br>• Disgrifiad rôl Cadeirydd y Pwyllgor.<br><br>• Y Datganiad ar rôl aelodau'r Tîm Gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau.<br><br>• Y diwygiad i'r Rheolau Sefydlog (4.2)<br><br>CADARNHAU'R Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr am flwyddyn arall. | |
| | **19.105.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin a 6 Gorffennaf 2020.<br>(ii) Polisi ar ffurfio, diddymu a llywodraethu is-gwmnïau<br><br>**Adroddwyd:**<br>Datblygwyd y Polisi ar ffurfio, diddymu a llywodraethu is-gwmnïau i gryfnhau'r fframwaith rheoli sy'n berthnasol i'r is-gwmnïau. Nodwyd, wrth i'r cwmnïau fynd yn fwy ac yn fwy cymhleth, gallent gael effaith niweidiol ar y Brifysgol petaent yn perfformio'n wael.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin a 6 Gorffennaf 2020.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfodydd 26 Mehefin a 6 Gorffennaf wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>CYMERADWYO'R Polisi ar ffurfio, diddymu a llywodraethu is-gwmnïau. | |

Diwedd